



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau ar gyfer Ceidwaid Ceffylau 2020



Cynnwys

Cyflwyniad	3
Pasbortau	3
Microsglodyn	4
Defnyddio eich pasbort ceffylau	5
Cael copi o basbort wedi'i golli	6
Beth i'w wneud pan fyddwch yn prynu ceffyl	6
Beth i'w wneud os ydych yn gwerthu ceffyl	6
Beth i'w wneud os ydych yn mewnforio ceffyl	6
Beth i'w wneud os ydych yn allforio ceffyl	6
Yr hyn mae'n rhaid ichi ei wneud os bydd eich ceffyl yn marw	7
Cydymffurfio a gorfodi	7
Gwybodaeth ddefnyddiol	8
Rhestr o dermau	9

Canllawiau ar gyfer Ceidwaid Ceffylau

Mae'r llyfryn hwn yn amlinellu'r rheolau sy'n berthnasol i berchnogion ceffylau yng Nghymru. Mae canllawiau tebyg wedi cael eu cyhoeddi yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nodwch ei bod yn bosibl y bydd gwahaniaethau ar draws y DU.

I gael rhagor o wybodaeth

Gwefan: <https://llyw.cymru/cofrestru-a-symudiadau-anifeiliaid>

E-bost: equineidceffylau@gov.wales

Cyfeiriad: Cyflawni Polisi Anifeiliaid, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn egluro sut mae'n rhaid adnabod ceffylau er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019. Mae canllawiau tebyg wedi cael eu cyhoeddi yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nodwch ei bod yn bosibl y bydd gwahaniaethau ar draws y DU.

Yr hyn mae angen ichi ei wybod

Mae'r Rheoliadau Adnabod Ceffylau yn ei gwneud yn ofynnol i bob ceffyl yng Nghymru gael ei adnabod drwy ficrosglodyn erbyn 12 Chwefror 2021 a bod â phasbort dilys. Bydd y gofynion hyn yn dod i rym yn Lloegr ar 1 Hydref 2020, ac yn yr Alban ar 28 Mawrth 2021.

Os oes gan eich ceffyl ficrosglodyn eisoes, bydd rhaid ichi fynd i wefan y Gwirydd Microsglodion (www.equineregister.co.uk/home) a mewnosod rhif y microsglodyn i sicrhau bod eich manylion yn gywir ac yn gyfredol. Gallwch wneud hyn drwy glicio yma Gwirydd Microsglodion.

Beth mae angen i geidwaid ei wneud?

Mae gan berchnogion neu geidwaid ceffylau rwymedigaeth gyfreithiol i sicrhau bod ceffyl wedi derbyn microsglodyn ac wedi cael ei gofrestru ar y Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog (CED). Y perchennog neu'r ceidwad sy'n gyfrifol am ddiweddarau'r manylion hyn.

Os yw'r anifail yn cael ei werthu neu ei drosglwyddo, rhaid i'r ceidwad newydd sicrhau bod ei fanylion yn cael eu cofnodi ar y gronfa ddata o fewn 30 i'r anifail gael ei drosglwyddo. Bydd y Corff Cyhoeddi Pasbortau (PIO) yn diweddarau'r CED pan ddychwelir y pasbort/gofynnir am y pasbort.

Pasbortau

Rhaid i unrhyw geffyl, merlyn, asyn neu anifail arall o deulu'r ceffyl, gan gynnwys sebraod a rhywogaethau egsotig eraill fod â phasbort wedi'i gyhoeddi drwy PIO. Rhaid ichi wneud cais am basbort ar ôl i'r anifail dderbyn microsglodyn a chwe mis ar ôl ei eni, neu erbyn 1 Rhagfyr yn y flwyddyn y cafodd ei eni, pa un bynnag sydd hwyraf (mae microsglodion yn cael eu hegluro ymhellach ar dudalen 4). Rhaid dychwelyd y pasbort erbyn 31 Rhagfyr.

Mae'r pasbort yn llyfryn bach a fydd yn gwneud y canlynol:

- adnabod eich ceffyl yn ôl ei rywogaeth, ei daldra ac unrhyw farciau unigryw (h.y. troellau neu rewfrandiau)
- cadw Rhif Oes Unigryw Ceffylau (UELN) yr anifail (15 digit)
- cadw manylion y perchennog neu ei asiant
- cofnodi brechiadau (rhaid cofnodi pob brechiad)
- cofnodi unrhyw brofion labordy
- cofnodi triniaethau milfeddygol
- dangos unrhyw ofynion iechyd sylfaenol
- nodi a all eich anifail gael ei fwyta gan bobl pan fydd yn marw.

Ni chewch wneud cais am basbort ond drwy PIO cymeradwy, a dim ond perchennog y ceffyl a gaiff wneud cais am y pasbort. Gall cais am basbort gymryd hyd at chwe wythnos a chodir ffi. Bydd y ffi a godir yn dibynnu ar y PIO a'r math o anifail.

Gall pasbortau fod â naw adran sydd wedi eu labelu â rhifau Rhufeinig (I to IX). Rhaid cwblhau adrannau I i IV ac adran IX ym mhob pasbort, a bydd pob adran yn cael ei gwblhau mewn rhai pasbortau. Yn ôl Rheoliadau'r UE rhaid i bob pasbort a gyhoeddir gan PIO fod yn Saesneg/Ffrangeg, er y caiff pasbortau yng Nghymru gynnwys y Gymraeg.

Os nad oes gan basbort Aaran 9 mae hynny'n golygu iddo gael ei gyhoeddi cyn 10 Mehefin 2004, a heb yr adran hon nid yw'n llawn ddilys. Dylech gysylltu â'r PIO perthnasol a gofyn iddynt ychwanegu'r adran hon. Pan fydd PIO yn ychwanegu'r adran hon i basbort cyfredol mae gofyniad cyfreithiol iddynt ei lofnodi i ddatgan na fwriedir i'r ceffyl gael ei fwyta gan bobl.

Diben y pasbort yw diogelu'r gadwyn fwyd i bobl, ac i sicrhau nad yw anifeiliaid sydd wedi cael eu trin â chyffuriau penodol, megis Phenybutazone (Bute), yn cael eu lladd i'w bwyta gan bobl. Mae Bute yn gyffur gwrthlidiol ansteroidaidd at ddibenion trin poen a'r dwymyn mewn anifeiliaid, ac mae'n beryglus i bobl.

Mae'n bwysig nodi nad oes gan basbort ceffyl ddyddiad dod i ben. Maent yn ddilys am oes y ceffyl.

Microsglodion

Y ceidwad sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan ei geffyl ficrosglodyn. Os nad oes gan anifail ficrosglodyn bydd rhaid ichi drefnu i filfeddyg swyddogol osod un, a gellir gwneud hyn yn ystod ymweliad arferol.

Nodwch ei bod yn drosedd i unrhyw un nad yw'n filfeddyg swyddogol osod y microsglodyn.

Bydd gosod y microsglodyn yn costio £25–£35. Bydd eich milfeddyg yn cyflenwi'r microsglodyn, ac ar ôl ei osodi bydd yn nodi rhif y microsglodyn a lle mae wedi cael ei osod ar yr anifail. Bydd rhaid ichi ddychwelyd y pasbort, ynghyd â thystysgrif wedi'i lofnodi gan eich milfeddyg yn cadarnhau bod eich ceffyl wedi derbyn microsglodyn, i'r PIO a gyhoeddodd y pasbort. Bydd y PIO yn diweddarau'r manylion ar yr CED ac yn dychwelyd eich pasbort atoch chi.



Mae PIO yn golygu Corff Cyhoeddi Pasbortau. Mae'r rhain yn sefydliadau sydd wedi derbyn mandad/awdurdod gan Lywodraeth Cymru, DEFRA (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) neu un o'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i gyhoeddi pasbortau ar ei rhan.

Mae dau fath o basbort yn cael eu cyhoeddi gan PIO:

Pasbortau Adnabod yn unig – Y papurau adnabod cyfreithiol sylfaenol sydd eu hangen gan unrhyw geffyl neu anifail o deulu'r ceffyl.

Pasbortau Llyfrau Gre/Cymdeithas Brid – Mae'r rhain yn cynnwys yr un wybodaeth cyfreithiol sylfaenol sydd yn y pasbortau adnabod yn unig, ond maent hefyd yn cynnwys gwybodaeth am linach neu gart achau (yn y pasbort dangosir hyn fel Sire/Dam (tad/mam) a Grand Sire/Grand Dam (tad-cu/mam-gu)), Dim ond ar gyfer ceffylau sy'n bridiau pur y mae'r mathau hyn o basbort. Bydd cymdeithasau brid yn gallu dweud wrthyhych a yw eich ceffyl yn gymwys i ymuno. Mae rhestr o'r sefydliadau hyn ar gael yn yr adran gwybodaeth ddefnyddiol ar ddiwedd y canllawiau hyn.

Cronfa Ddata Ceffylau Ganolog (CED)

Cafodd y CED ei sefydlu i alluogi system fwy cadarn ar gyfer adnabod a symud ceffylau mewn ymateb i'r sgandal cig ceffylau yn 2013. Mae'n gronfa ddata fawr ac arni dros 1.2 miliwn o gofnodion gan 81 PIO. Ar hyn o bryd mae'r PIOau yn diweddarau'r CED â'r wybodaeth maent yn ei chadw.

Rhanddirymiad ar gyfer ceffylau gwyllt/lled wyllt

Caiiff ceffylau neu ferlod gwyllt neu led wyllt aros mewn ardal benodol heb basbort neu ficrosglodyn, os ydynt yn rhan o boblogaeth gydnabyddedig o ferlod gwyllt neu led wyllt (er enghraifft, merlod Carneddau). Adwaenir hyn fel rhanddirymiad. Cewch wneud cais am randdirymiad os oes gennych geffyl/merlyn lled wyllt yn pori ar dir comin. Fodd bynnag, os yw'r ceffyl yn cael ei drin â chyffur, yna bydd yn rhaid i ficrosglodyn gael ei osod a phasbort gael ei gyhoeddi o fewn 30 diwrnod i'r driniaeth gael ei chynnal.

Defnyddio eich pasbort ceffylau

Rhaid cadw pasbort ceffylau dilys gyda'r anifail ar bob adeg. Yr unig eithriad yw os yw eich ceffyl yn cael ei symud i gael triniaeth filfeddygol brys.

Bydd yn rhaid ichi ddarparu pasbort eich ceffyl yn yr amgylchiadau canlynol:

- pan fydd milfeddyg yn archwilio neu'n trin eich anifail, gan y bydd y meddyginiaeth mae eich anifail yn ei derbyn yn dibynnu ar sut mae'n cael ei gategoreiddio ar ei basbort
- os yw arolygydd iechyd anifeiliaid, swyddog safonau masnach neu unrhyw swyddog gorfodi eraill yn gofyn i'w weld
- pan fyddwch yn gwerthu neu roi eich ceffyl i rywun arall.

Gallwch dderbyn dirwy ddiderfyn os nad ydych yn gallu dangos pasbort dilys ar gyfer ceffyl rydych yn gyfrifol amdano.

Os ydych yn rhoi eich ceffyl ar fenthyg, mae'n ofyniad cyfreithiol i'r pasbort gwreiddiol fynd gyda'r ceffyl – nid yw llungopi yn dderbyniol. Os ydych yn rhoi eich ceffyl ar fenthyg, ond yn teimlo'n anghyfforddus ynghylch rhoi'r pasbort, cewch wneud y canlynol:

1. Cysylltu â'r PIO perthnasol a'u hysbysu eich bod yn rhoi eich ceffyl ar fenthyg. Byddant yn ychwanegu nodyn i gofnod y ceffyl ac yn cysylltu â chi yn uniongyrchol os ydynt yn derbyn unrhyw gais i newid manylion perchennog y ceffyl.
2. Sicrhau bod y ceffyl wedi derbyn microsglodyn (gofyniad cyfreithiol erbyn **12 Chwefror 2021**) fel y gellir adnabod y ceffyl ar bob adeg.

Cael copi o basbort yn lle un wedi'i gollu

Os ydych wedi colli pasbort bydd yn rhaid ichi gysylltu â'r PIO a gyhoeddodd y pasbort gwreiddiol a gofyn am gopi. Os nad ydych yn gwybod pa PIO gyhoeddodd y pasbort cewch ofyn am gopi gan PIO arall. Os yw eich ceffyl yn geffyl pedigri bydd angen ichi wneud cais i PIO sy'n rheoli llyfrau gre.

Os yw pasbort eich ceffyl yn dod wlad arall yn yr UE ac mae'n geffyl pedigri, cewch ofyn am gopi o'r pasbort gan PIO yr UE. Bydd eich ceffyl yn cael ei gadw o'r gadwyn fwyd os yw wedi derbyn pasbort newydd neu gopi o'i basbort.

Os ydych yn dod o hyd i'r pasbort gwreiddiol bydd angen ichi ei ddychwelyd i'r PIO a gyhoeddodd y pasbort yn y lle cyntaf. Os nad yw'n bodoli mwyach neu os nad yw yn y DU, cewch ddychwelyd y pasbort i unrhyw PIO priodol yn y DU.

Beth i'w wneud pan fyddwch chi'n prynu ceffyl

Pan fyddwch yn prynu ceffyl rhaid i'r gwerthwr roi pasbort y ceffyl ichi. Bydd angen ichi gysylltu â'r PIO o fewn 30 diwrnod ichi brynu'r ceffyl er mwyn diweddarau manylion y perchennog ar y pasbort. Os nad yw'r gwerthwr yn rhoi pasbort y ceffyl ichi dylech geisio cyngor gan eich swyddfa safonau masnach leol.

Beth i'w wneud os ydych yn gwerthu ceffyl

Rhaid ichi fod â'r hawl gyfreithiol i werthu'r ceffyl, neu fod wedi derbyn awdurdod gan y perchennog cyfreithiol i werthu'r ceffyl. Rhaid ichi sicrhau bod pasbort y ceffyl yn gyfredol ac yn gywir cyn gwerthu'r ceffyl, a rhoi'r pasbort i'r prynwr ar adeg y gwerthu. Os ydych yn gwerthu'r ceffyl drwy drydydd parti, er enghraifft, arwerthwr neu farchnad, yna bydd angen ichi roi'r pasbort i'r trydydd parti hwnnw, gan mai ef fydd ceidwad yr anifail.

Mae 'gwerthu' hefyd yn cynnwys trosglwyddo perchnogaeth.

Beth i'w wneud os ydych yn mewnforio ceffyl

Os ydych yn mewnforio ceffyl o wlad yn yr UE, rhaid ichi gofrestru'r anifail gyda Chorff Cyhoeddi Pasbortau yn y DU o fewn 30 diwrnod. Os yw'r ceffyl yn geffyl pedigri, bydd angen ichi gofrestru'r ceffyl drwy PIO sy'n rheoli llyfrau gre. I fewnforio ceffyl o wlad y tu allan i'r UE yna rhaid ichi wneud y canlynol:

- cysylltu â'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) cyn i'r anifail gyrraedd
- cysylltu â PIO yn y DU i gofrestru, diweddarau neu uwchraddio dogfennau'r ceffyl, cael copi ohonynt neu wneud cais am basbort newydd o fewn 30 diwrnod i'r ceffyl gyrraedd y DU.

Beth i'w wneud os ydych yn allforio ceffyl

Os ydych yn allforio ceffyl o'r DU bydd angen ichi gysylltu â'r canlynol:

- eich milfeddyg swyddogol i gael profion gwaed cyn dyddiad yr allforio
- asiant neu gludwr i'w hysbysu pryd rydych yn bwriadu teithio. Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o amser hefyd i gynllunio eich taith drwy Fan Archwilio ar y Ffin yn yr UE.

Yn ogystal â'r uchod, bydd rhaid ichi wneud y canlynol:

- Cael y ceffyl wedi'i brofi am glefydau penodol.
- Sicrhau eich bod yn bodloni'r gofynion ynysu a phreswyllo'r wlad rydych yn allforio iddi.
- Gwneud cais am dystysgrif iechyd allforio.
- Gwirio bod gennych y dogfennau adnabod ceffylau cywir
- Gwirio a oes angen datganiad lles allforio arnoch.

Mae rhestr llawn o'r gofynion a rhagor o wybodaeth ar gael yn www.gov.uk/guidance/export-horses-and-ponies-special-rules

Beth i'w wneud os bydd eich ceffyl yn marw

Os bydd eich ceffyl yn marw, rhaid ichi ddychwelyd y pasbort i'r PIO gwreiddiol o fewn 30 diwrnod, a darparu manylion ysgrifenedig llawn ynglŷn ag amgylchiadau ac achos y farwolaeth. Os yw eich ceffyl yn cael ei ladd mewn lladd-dy yna bydd rhaid i'r pasbort fynd gyda'r anifail. Mewn achosion o'r fath, y lladd-dy sy'n gyfrifol am ddychwelyd y pasbort i'r PIO, ynghyd â'r hysbysiad perthnasol.

Bydd y rhan fwyaf o PIOau yn dychwelyd y pasbort gwreiddiol os ydych am ei gadw am resymau sentimental. Os bydd hyn yn digwydd bydd pob tudalen yn cael ei stampio ag 'annilys' i sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth adnabod ceffylau.

Cydymffurfio a gorfodi

Gwnaeth Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019 gyflwyno sancsiynau sifil megis hysbysiadau cosb ar gyfer diffyg cydymffurfio â'r rheoliadau.

Mae'r troseddau hyn yn cynnwys:

- methu dangos pasbort ar gais gan filfeddyg neu arolygydd
- meddu ar basbort ond dim ceffyl
- meddu ar geffyl heb basbort, neu os nad yw'r pasbort yn eich enw chi heb gytundeb (yn ddelfrydol contract ysgrifenedig) rhwng y perchennog a'r 'ceidwad' (y person sy'n gyfrifol)
- gwerthu ceffyl heb roi'r pasbort
- cludo ceffyl heb basbort
- meddu ar geffyl heb ficrosglodyn (oni bai y cafodd ei eni cyn 30 Mehefin 2009 ac mae o fewn y cyfnod trosglwyddo).

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd a fydd yn gyfrifol am orfodi'r gwiriadau sy'n cael eu cynnal mewn lladd-dai, a'r Awdurdodau Lleol (e.e. Safonau Masnach) sy'n gyfrifol am orfodi'r gyfraith mewn mannau eraill. Gall y llysoedd roi cosbau am ddiffyg cydymffurfio. Bydd erlyniad yn arwain at ddirwy hyd at ond heb fod yn fwy na £5,000.



Gwybodaeth Ddefnyddiol

Cyrff Cyhoeddi Pasbortau sy'n rheoli llyfrau gre.

<https://llyw.cymru/pasbortau-ceffylau-sefydliadau-cyhoeddi-syn-rheoli-llyfrau-magu>

Cyrff nad ydynt yn rheoli llyfrau gre ond sydd wedi eu hawdurdodi i gyhoeddi pasbortau.

<https://llyw.cymru/pasbortau-ceffylau-sefydliadau-cyhoeddi-nad-ydynt-yn-rheoli-llyfrau-magu>

Cymdeithas Ceffylau Prydain

www.bhs.org.uk

Cyngor Lles Ceffylau Cenedlaethol

www.newc.co.uk/?LMCL=I5cnVO

Cymdeithas Milfeddygon Prydain

www.bva.co.uk

Cymdeithas Milfeddygon Ceffylau Prydain

www.beva.org.uk/Login?returnurl=%2fContact-Us

Y Clwb Merlod

pcuk.org

RSPCA

rspca.org.uk

Rhestr o dermau

Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)

Yr asiantaeth sy'n gyfrifol am nodi a rheoli clefydau endemig ac egsotig a phlâu mewn anifeiliaid, planhigion a gwenyn. Mae hefyd yn gyfrifol am fonitro plâu a chlefydau newydd sy'n dod i'r amlwg.

Man Archwilio ar y Ffin (BIP)

Lle bydd eich ceffyl yn cael ei wirio wrth iddo gael ei allforio i'r UE. Mae rhestr o Fannau Archwilio ar y Ffin yn yr UE yma: <https://ec.europa.eu/food/animals/vet-border-control/bip-contacts_en>

Cronfa Ddata Ceffylau Ganolog (CED)

Mae'r CED yn gronfa ddata ganolog sy'n cadw dros 1.2 miliwn o gofnodion ceffylau gan yr 81 PIO yn y DU.

Tystysgrif Iechyd Allforio

Tystysgrif iechyd y mae'n rhaid iddi gael ei chwblhau gan filfeddyg penodedig cyn allforio ceffyl, ac mae'n rhaid iddi fynd gyda'r ceffyl ar ei daith gyfan.

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA)

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn adran anweinidogol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'n gyfrifol am ddiogelu iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Marc rhewi

Marc adnabod a wneir drwy broses rewfrandio.

Ceidwad

Y person sy'n gyfrifol am ofalu am y ceffyl o ddydd i ddydd, nid o reidrwydd perchennog y ceffyl.

Awdurdod Lleol

Mae Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am orfodi Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014

Corff Cyhoeddi Pasbort

Sefydliad wedi'i gymeradwyo gan DEFRA (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) i gyhoeddi pasbortau ceffylau.

Rhif Oes Unigryw Ceffylau (UELN)

Y rhif 15 digid sy'n cael ei roi i anifail ac yn cael ei nodi ar y pasbort. Mae'r anifail yn cadw'r un rhif hyd ei oes.

Milfeddyg

Milfeddyg Swyddogol sy'n aelod o Goleg Brenhinol y Milfeddygon.

Ceffylau gwyllt/lled wyllt

Ceffylau sy'n byw yn y gwyllt neu ar dir comin gyda'u perchnogion.

Troellau

Mae troell y darn o flew sy'n tyfu yn y cyfeiriad arall i'r blew o'i gwmpas, fel arfer ar ffurf olwyn bin.